# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

**Dyddiad y Cyfarfod** 26 Mai 2021

---

**PWNC**

**Eitem 5: CYFRIFON GWE 2020-2021 - ALLDRO REFENIW**

---

**PENDERFYNIAD**

a) Nodi a derbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2020/21 cyflwynwyd yn Atodiad 1 fel sefyllfa ariannol derfynol.

b) Cydbwyllgor yn cymeradwyo trosglwyddiad ariannol i neilltuo tanwariant 2020/21 o (£83,326) i gronfa wrth gefn GwE

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Darparwyd adroddiad terfynol i aelodau'r Cydbwyllgor sy'n nodi alldro refeniw ar ddiwedd y flwyddyn gyllidebol 2020/21. Nodwyd bod tanwariant o £83,000 yn bennaf o ganlyniad i arbedion costau teithio. Ategwyd bod sefyllfa ariannol bresennol GwE wastad ac yn ddarbodus ar ddiwedd y flwyddyn gyllidebol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol**.**

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

**Dyddiad y Cyfarfod** 26 Mai 2021

**PWNC**

**Eitem 6: CYNLLUN BUSNES GWE 2021-2022**

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE ar gyfer 2021 – 2022.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd y Cynllun Busnes gan nodi ei fod yn amlinellu gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiad y gwasanaeth, yn ogystal â'r meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth. Yn ogystal, ategwyd bod y Cynllun Busnes yn rhoi sylw i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

## TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

**Dyddiad y Cyfarfod** 26 Mai 2021

---

**PWNC**

**Eitem 7: COFRESTR RISG**

---

**PENDERFYNIAD**

a) Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

b) Bydd y Cydbwyllgor yn cael eu briffio yn ystod y drafodaeth nesaf ar y Gofrestr Risg mewn perthynas â'r risgiau cydberthynol sydd ynghlwm â recriwtio arweinyddion, ynghyd ag recriwtio staff cymwys dwyieithog.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae cofrestr risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cydbwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cydbwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

Yn ystod y drafodaeth, cafodd risgiau recriwtio eu hamlygu yn sgil rhagolygon y byddai penaethiaid neu staff arweiniol yn ymddeol o ganlyniad i'r pandemig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

**Dyddiad y Cyfarfod** 26 Mai 2021

---

**PWNC**

**Eitem 8: TREFNIADAU ASESU: TYMOR YR HAF 2021**

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd yr adroddiad er gwybodaeth er mwyn nodi bod y sefyllfa asesu yn adlewyrchu y sefyllfa a fu yn 2020 sef nad oes disgwyliad i athrawon asesu na chymedroli.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

**Dyddiad y Cyfarfod** 26 Mai 2021

---

**PWNC**

**Eitem 9: Y DAITH DDIWYGIO: PAPURAU PROCIO**

---

**PENDERFYNIAD**

a) Derbyn yr adroddiad.

b) Bwriedir rhannu datblygiadau gydag Aelodau Etholedig a'r gymuned ehangach, er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith parhaus GwE i sicrhau llwyddiant y cwricwlwm newydd yn 2022.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd bod casgliad o bapurau wedi eu cynhyrchu ar y cyd gan aelodau tîm GwE, yn gweithio dan arweiniad a chymorth yr Athro Graham Donaldson. Bwriad y Papurau Procio yw annog trafodaeth a chefnogi ysgolion i baratoi am Cwricwlwm i Gymru. Penderfynwyd y byddai'n werth rhannu'r gwaith yma'n ehangach er mwyn amlygu gwaith GwE ac i ledaenu'r neges am y cyfleoedd a ddaw gyda'r cwricwlwm newydd.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

**Dyddiad y Cyfarfod** 26 Mai 2021

---

**PWNC**

**Eitem 10: ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN: ARGYMHELLION**

---

**PENDERFYNIAD**

a) Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

b) Bod aelodau'r Cydbwyllgor yn cael eu briffio yn yr Hydref ar y camau a gymerwyd i ddiwallu'r argymhellion sydd o fewn yr adolygiad thematig gan Estyn.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar gais gan y Gweinidog Addysg, cynhaliwyd adolygiad thematig gan Estyn, er mwyn gwerthuso dulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19.

Derbyniwyd rhestr o argymhellion gan Estyn o ganlyniad i'r adolygiad hwn a chynhaliwyd ymweliadau yn ddiweddar er mwyn edrych ar ba gynnydd oedd awdurdodau a GwE wedi ei wneud er mwyn eu gweithredu.

Gan nad oedd amser hir rhwng cyhoeddi'r adroddiad ym mis Rhagfyr/Ionawr a'r ymweliadau diweddar, awgrymwyd bod y Cydbwyllgor yn derbyn diweddariad yn yr Hydref ar y camau a gymerwyd i ddiwallu'r argymhellion sydd o fewn yr adolygiad thematig gan Estyn.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr

---

adroddiad.